# adroddiad blynyddol y strategaeth amgylcheddol 2008/2009



Helpu Cymru i leihau ei Hôl Troed Carbon

Help Wales reduce its Carbon Footprint

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

75% wedi'i ailgylchu recycled

ISBN 978 0 7504 5380 6
© Hawlfraint y Goron, Hydref 2009
CMK-22-01-175
E4090910

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Rhagair y Gweinidog | |
| 1. | Rhagymadrodd | 3 |
| 2. | Datganiad ar sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill wedi rhoi ystyriaeth i Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 | 4 |
| 3. | Crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn dangosyddion y Strategaeth Amgylcheddol | 6 |
| 4. | Y diweddaraf am sut mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn cael ei symud ymlaen mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru | 10 |
| 5. | Crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynlluniau Gweithredu cyntaf ac ail y Strategaeth Amgylcheddol | 15 |
| | Rhestr byrfoddau | 33 |
| | Atodiad A: Y diweddaraf am gamau gweithredu o Gynlluniau Gweithredu cyntaf ac ail y Strategaeth Amgylcheddol - Ar gael ar y we | |
| | Atodiad B: Cyflwr yr Amgylchedd, Gorffennaf 2009 - Bwletin ystadegol - Ar gael ar y we | |

# Rhagair y Gweinidog



Pleser yw cyflwyno ein hadroddiad yn erbyn y camau gweithredu o gynlluniau gweithredu cyntaf ac ail y strategaeth amgylcheddol. Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau gweithredu hynny ynghyd â sylwadau ar y dangosyddion cynnydd amgylcheddol. Rydym hefyd wedi rhoi manylion ynghylch sut mae canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol yn cael eu cefnogi mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni eraill o eiddo Llywodraeth y Cynulliad.

Am y tro cyntaf, ceir datganiad ar sut mae'r camau gweithredu o'r cynllun gweithredu wedi rhoi sylw i gynnal bioamrywiaeth. Mae'r datganiad hwn yn adlewyrchu'r ddyletswydd tuag at fioamrywiaeth sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a rhai o'i phartneriaid o dan Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006.

Rwyf yn ystyried amgylchedd naturiol Cymru, ar y tir a'r môr, yn ased sy'n allweddol i les pobl Cymru. Mae gwreiddio canlyniadau'r Strategaeth Amgylcheddol o fewn polisïau a rhaglenni ar draws Llywodraeth y Cynulliad, ac o fewn polisïau a rhaglenni ein partneriaid, yn adlewyrchu'r ddealltwriaeth a'r ymrwymiad hwn. Dengys yr adroddiad y cynnydd yr ydym yn ei wneud i wireddu ein gweledigaeth, fel y'i nodwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol, o Gymru sydd ag amgylchedd glân, iach, amrywiol yn fiolegol ac yn cael ei werthfawrogi gan bobl Cymru. Mae hon yn elfen graidd yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â datblygu cynaliadwy, ac yn ein hymdrechion i wneud Cymru yn genedl wirioneddol gynaliadwy.

Mae'r darlun yn yr adroddiad drwyddo draw yn gadarnhaol ac mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu wedi cael eu cyflawni neu maent yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlen. Fodd bynnag, yr wyf yn ymwybodol y ceir pwysau cynyddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'r saith her allweddol y tynnir sylw atynt yn y Strategaeth Amgylcheddol, sef newid yn yr hinsawdd, defnydd anghynaliadwy o adnoddau, ecosystemau diraddedig, colli bioamrywiaeth, amgylcheddau lleol o ansawdd isel, peryglon amgylcheddol a cholli hynodrwydd ac ansawdd tirluniau a threftadaeth. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar y sialensiau hyn ac yn sicrhau bod y camau yr ydym yn eu cymryd yn adeiladu ar y cynnydd sydd wedi cael ei wneud.

Ffrwyth gwaith gan amrywiaeth eang o grwpiau yw'r adroddiad. Yn eu mysg mae Cyswllt Amgylchedd Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Rwyf yn ddiolchgar i'r sefydliadau hynny am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i weithredu Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol, a hefyd i'm Grŵp Cyfeirio ar y Strategaeth Amgylcheddol am ei gyngor a'i arweiniad.



**Jane Davidson AC**
**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a Thai**

# Pennod 1

## Rhagymadrodd

Yn y ddogfen hon ceir y diweddariad cynnydd cyntaf yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynlluniau Gweithredu cyntaf ac ail y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru. Mae'r diweddariadau'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2008 hyd at fis Medi 2009 o ran y cynllun gweithredu cyntaf ac o fis Hydref 2008 hyd at fis Medi 2009 o ran yr ail gynllun gweithredu. Mae hyn yn adlewyrchu cyfnod bodolaeth yr ail ddogfen.

Mae'r mwyafrif o'r camau gweithredu yn y cynllun gweithredu cyntaf wedi cael eu cwblhau erbyn hyn ac, o ganlyniad, dim ond yn erbyn nifer fach yr adroddir yn yr adroddiad hwn.

Mae'r Adroddiad Blynyddol wedi cael ei rannu'n bedair adran a dau atodiad.

1. Mae'r adran gyntaf yn amlinellu dyletswydd Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill i roi ystyriaeth i Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006. Rhydd hon ddyletswydd newydd ar bob awdurdod, wrth iddo gyflawni ei swyddogaethau, i "*roi ystyriaeth, cyn belled ag sy'n gyson â chyflawni'r swyddogaethau hynny'n briodol, i bwrpas cadw bioamrywiaeth*".

2. Yn yr ail adran ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y 103 o ddangosyddion yn y Strategaeth Amgylcheddol sy'n sylfaen i'r camau gweithredu a'r canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a'r ddau Gynllun Gweithredu. Ychwanegwyd bwletin ystadegol Gorffennaf 2009 fel atodiad at yr adran hon i ddarparu cyd-destun pellach.

3. Mae'r drydedd adran yn dangos sut mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn cael ei symud ymlaen mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni eraill o eiddo Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4. Yn yr adran olaf ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu cyfredol o'r cynlluniau gweithredu cyntaf ac ail. Mae hwn yn ymdrin â gweithgarwch ar gyfanswm o 43[1] o gamau gweithredu, ynghyd â'u his-gamau gweithredu. Darperir atodiad technegol manylach gyda diweddariadau ar bob un o'r camau gweithredu ar wahân i'r adroddiad hwn. Sgoriwyd y diweddariadau yn yr adran hon yn ôl meini prawf coch, oren a gwyrdd. Mae coch yn dangos bod angen rhagor o waith i gyflawni'r ymrwymiad; dengys oren fod yr ymrwymiad yn mynd rhagddo'n unol â'r disgwyl neu ei fod yn dal ar y gweill; a dengys gwyrdd fod ymrwymiad wedi cael ei wireddu.

---

[1] 2 gam gweithredu sy'n dal i fynd rhagddynt o'r Cynllun Gweithredu 1af, a 41 o'r 2il Gynllun Gweithredu

# Pennod 2

## Datganiad ar sut mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ac awdurdodau cyhoeddus eraill wedi rhoi ystyriaeth i Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006

Dywed Adran 40(1) o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006:

Rhaid i bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei swyddogaethau, roi ystyriaeth, cyn belled ag sy'n gyson â chyflawni'r swyddogaethau hynny'n briodol, i bwrpas cadw bioamrywiaeth.

Mae rhagor o fanylion am sut y cafodd bioamrywiaeth ei hystyried wrth roi pob cam gweithredu ar waith wedi cael eu cynnwys mewn atodiad technegol sydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fel y byddid yn disgwyl, gyda rhai camau gweithredu mae'r sylw a roddir i faterion bioamrywiaeth yn llawer mwy na chydag eraill. Mae'r ddwy thema gyntaf yn y cynllun gweithredu, sy'n canolbwyntio ar Fioamrywiaeth a materion Morol, yn golygu bod cwmpas dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn fwy yma nag mewn adrannau eraill o'r cynllun gweithredu.

Mae adrannau Llywodraeth y Cynulliad yn cynnwys bioamrywiaeth wrth wneud penderfyniadau, a dangosir enghreifftiau o sut mae dyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig wedi cael ei symud ymlaen isod.

- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnwys cyfeiriad at ddyletswydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn ei hamodau grant i'r partneriaid hynny y mae'r ddyletswydd yn y Ddeddf yn berthnasol iddynt.
- Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi gweithio'n agos gyda CLlLC ac mae'r holl awdurdodau lleol yng Nghymru wedi penodi Hyrwyddwr Bioamrywiaeth ar lefel yr aelodau etholedig.
- Mae asesiadau o'r effaith amgylcheddol, yn cynnwys elfennau bioamrywiaeth, yn dylanwadu ar benderfyniadau Llywodraeth y Cynulliad i ddarparu cyllid grant tuag at gynlluniau i reoli'r perygl llifogydd.
- Mae CADW wedi darparu hyfforddiant penodol i sicrhau ei fod, wrth fonitro, arolygu a gwneud gwaith, yn rhoi ystyriaeth lawn i anghenion bioamrywiaeth.

- Mae'r rhaglen Eco ysgolion wedi integreiddio bioamrywiaeth i nifer o bynciau allweddol, gan alluogi disgyblion i ddysgu mwy am ystyriaethau ymarferol darparu ar gyfer bywyd gwyllt yn eu hysgolion.
- Yn Ne-ddwyrain Cymru, mae'r gwaith i symud Rhanbarth Amgylcheddol Rhwydweithiol ymlaen fel rhan o Gynllun Gofodol Cymru wedi datblygu ystod o flaenoriaethau i annog bioamrywiaeth a'i galluogi i ymdopi â phwysau newid yn yr hinsawdd, hamdden a thwristiaeth. Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr fel sail i raglenni tebyg yn rhai o ardaloedd eraill y cynllun gofodol.
- Mae Adran yr Economi a Thrafnidiaeth yn ymwneud yn agos â'r gwaith ar y Rhanbarth Amgylcheddol Rhwydweithiol, ac rydym yn archwilio sut y gellir gwireddu hyn drwy ein gwaith. Yn ddiweddar, mae'r Adran wedi diweddaru ei Chanllawiau Bioamrywiaeth o ran gweithgarwch Seilwaith ac Adfywio, ac mae wedi integreiddio bioamrywiaeth yn ei chanllawiau ar ddatblygu cynaliadwy.
- Mae gwella bioamrywiaeth yn allweddol i nodau ac amcanion y cynllun Trefi Taclus. Mae bioamrywiaeth yn rhan o'r meini prawf gorfodol i awdurdodau lleol ac mae gweithgareddau codi ymwybyddiaeth Cadwch Gymru'n Daclus yn cynnwys cyfeiriad penodol at fioamrywiaeth.

# Pennod 3

## Crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn dangosyddion y Strategaeth Amgylcheddol

Caiff y cynnydd o ran y Strategaeth Amgylcheddol ei fonitro drwy gyflawni 102 o ddangosyddion[2]. Rydym yn adrodd ar y cynnydd yn erbyn y rhain yn yr Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd. Rhydd hwn grynodeb o'r canlyniadau, y dangosyddion a'r cynnydd, a chaiff ei ddiweddaru ddwywaith y flwyddyn ar wefan StatsCymru.

Mae'r bennod hon yn crynhoi'r cynnydd hwnnw. Cafwyd dau Fwletin Ystadegol o dan yr Adroddiad ar Gyflwr yr Amgylchedd ers lansio 2il Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol, y mwyaf diweddar ym mis Gorffennaf 2009.

Mae 51 o'r 102 o ddangosyddion wedi cael eu diweddaru un ai yng nghylch adrodd mis Rhagfyr 2008 neu yng nghylch adrodd mis Gorffennaf 2009.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r cynnydd hyd yma.

| Cyflwr | Mawrth 08 | Gorffennaf 08 | Rhagfyr 08 | Gorffennaf 09 |
|---|---|---|---|---|
| Wedi gwella | 26 | 29 | 31 | 27 |
| Cyson/Dim tuedd amlwg** | 8 | 21 | 22 | 26 |
| Gwaelodlin | 29 | 15 | 13 | 12 |
| Yn cael eu datblygu | 11 | 11 | 18 | 22 |
| Dim gwybodaeth ar hyn o bryd | 24 | 23 | 16 | 9 |
| Yn dirywio | 4 | 3 | 2 | 6 |
| **Cyfanswm*** | **102** | **102** | **102** | **102** |

* Gweler troednodyn 1

** Mae'r rhain yn cyfeirio at data sy'n amrywio gan ei gwneud yn anodd nodi tuedd glir

[2] Nododd y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru 97 o ddangosyddion ond gwahanodd y broses adrodd Ganlyniad 33 yn lygryddion unigol, gan gynyddu cyfanswm y dangosyddion drwy hynny i 103. Mae StatsCymru o'r farn fod 1 dangosydd yn gyfrif dwbl ond fe'i crynhoir yn y tabl. Mae dau ddangosydd arall wedi cael eu cyfuno i wneud yr adroddiad yn gliriach.

## Y sefyllfa ar hyn o bryd

Mae'r trydydd adroddiad, dyddiedig Gorffennaf 2009[3], yn awgrymu, lle'r oedd gwybodaeth ar gael i ddiweddaru'r adroddiad gwreiddiol, fod cynnydd wedi cael ei wneud a bod y duedd gyffredinol tuag at amgylchedd o ansawdd gwell yng Nghymru.

O'r 27 o ddangosyddion sydd wedi gwella, mae sawl un a gaiff effaith arwyddocaol ar yr amgylchedd, yn cynnwys rheoli gwastraff, llygredd aer a dŵr, a bioamrywiaeth. Dyma enghreifftiau eraill lle mae'r dangosyddion wedi gwella:

- Mae arolwg Byw yng Nghymru yn dangos bod unigolion yn ymddiddori mwy yn yr amgylchedd drwy gymryd camau amrywiol.
- Mae'r Gwastraff Trefol sy'n cael ei ailgylchu a'i gompostio yn dal i gynyddu tra mae swmp y Gwasanaeth Trefol fesul person y flwyddyn yn dal i ddisgyn. Mae hynny'n wir hefyd am faint o wastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi.
- Mae ansawdd dŵr ymdrochi'n gwella hefyd ynghyd â'r sylweddau peryglus sy'n mynd i'r môr.
- Mae'r nifer o ddisgyblion sy'n cerdded i'r ysgol yn dal i gynyddu.
- Mae ymwybyddiaeth poblogaeth Cymru o berygl llifogydd hefyd yn gwella, gan adlewyrchu camau gweithredu positif o fewn y Cynllun Gweithredu Diwygiedig.

O'r dangosyddion sy'n dirywio, mae a wnelo un â thipio anghyfreithlon; un ag ymdrechion gwirfoddoli yn yr amgylchedd; un â data newydd ynglŷn â mannau heddychlon; un â llifogydd ac mae a wnelo un â'r dull teithio i'r gwaith.[4]
Ceir sylwadau ar bob un isod:

## Rheoli gwastraff

- Dangosyddion 10c a 10d - yn dilyn argymhelliad i Grŵp Cyfeirio'r Strategaeth Amgylcheddol, cytunwyd y dylai'r dangosyddion hyn gael eu cyfuno a'u hailddiffinio fel "*Cyfran y gwastraff sector cyhoeddus a gaiff ei ailgylchu neu'i ailddefnyddio*". Y rheswm am hyn yw nad oes data'n cael ei gasglu i wahaniaethu rhwng faint o wastraff sector cyhoeddus sy'n cael ei ailddefnyddio neu'i ailgylchu.

- Dangosydd 28b *Y tueddiadau yn lefel y tipio anghyfreithlon*. Mae'r lefelau'n cynyddu i gategori bagiau unigol a llwythi cist car. Mae'n ofynnol yn ôl Cam Gweithredu 40c i'r Cynulliad *Hyrwyddo gweithredu effeithiol yng nghyswllt tipio anghyfreithlon* drwy barhau i ddarparu cymorth a chyllido'r Rhaglen Ymfalchïo yn ein Cymunedau (a elwir erbyn hyn yn Weithredu ar Dipio

[3] Cyhoeddwyd ar wefan StatsCymru (http://www.statswales.wales.gov.uk/tableviewer/document.aspx?FileId=1657)
[4] Mae'r 6ed dangosydd sy'n cofnodi dirywiad yn cyfeirio ar y dangosyddion eu hunain - cynnydd yn y nifer o ddangosyddion sy'n dirywio o 2 i 6 (yn cynnwys y dangosydd hwn) rhwng y cyfnodau adrodd

Anghyfreithlon Cymru). Er iddi gael ei threialu yn Ne-orllewin Cymru yn 2003, mae wedi cael ei hymestyn i'r holl Awdurdodau Unedol yng Nghymru er 2006. Cynllun codi ymwybyddiaeth yw'r rhaglen hon er mwyn i'r cyhoedd roi gwybod am achosion o dipio anghyfreithlon. Efallai fod y cynnydd yn ei sgil i'w briodoli i lwyddiant y cynllun, gyda mwy o ymwybyddiaeth yn ardaloedd Caerdydd, Casnewydd ac Abertawe, a gostyngiad yn y nifer o ddigwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt ar draws gweddill Cymru. Mae mesurau'n cael eu sefydlu'n awr i feincnodi union nifer y digwyddiadau fel y gellir asesu a monitro maint y broblem er mwyn adrodd arni yn y dyfodol.

## Ymdrechion gwirfoddoli

- Mae dangosydd 24c yn adrodd ar y *Ganran o bobl yn gwirfoddoli'n ffurfiol neu'n anffurfiol dros y 3 blynedd diwethaf*. Mae'r data a gasglwyd o arolwg Byw yng Nghymru am wirfoddoli o bob math yn dangos bod y dangosydd hwn yn dal i ddirywio yng Nghymru, sy'n cyferbynnu â gweddill y DU (Biodiversity in your Pocket, Defra 2009). Fodd bynnag, mae gwybodaeth anecdotaidd oddi wrth Gyswllt Amgylchedd Cymru yn awgrymu bod gwirfoddoli amgylcheddol yng Nghymru wedi cynyddu. Roedd Cam Gweithredu 28 yng Nghynllun Gweithredu'r Strategaeth yn ei gwneud yn ofynnol i *Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru gynnal asesiad rhagarweiniol o wirfoddoli gwyrdd, yn cynnwys cyfleoedd, rhwystrau a ffynonellau cymorth cyfredol erbyn mis Mawrth 2009 ac, ar y cyd â Llywodraeth y Cynulliad, i ymateb i'r argymhellion a cheisio gweithio gyda mudiadau i ehangu'r cyfleoedd gwirfoddoli a'r ymwneud â gwirfoddoli o fis Mawrth 2009 ymlaen*. O ganlyniad i hyn, lansiodd Llywodraeth Cynulliad Cymru "Gwirfoddoli Cymru 2009" - ymgyrch i annog rhagor o bobl yng Nghymru i fynd ati i wirfoddoli, a rhagor o fudiadau i ddarparu profiadau gwirfoddoli o safon.

## Mannau heddychlon

- Dangosydd 29c - Seiliwyd hwn ar ddata newydd yn edrych ar y *Newid yn nifer a maint y mannau heddychlon yn ôl y diffiniad yng ngwaith mapio Cyngor Cefn Gwlad Cymru*. Yn ôl adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009 ar ran y Cyngor Cefn Gwlad, cafwyd gostyngiad o 8% yn y mannau heddychlon dros gyfnod o 12 mlynedd. (1500km$^2$, sy'n cyfateb i ychydig dros 6% o holl arwynebedd tir Cymru). Mae'r dangosydd hwn yn anarferol, yn adrodd bod statws y dangosydd wedi newid o "ddim gwybodaeth" i "yn dirywio". Roedd hyn am fod yr adroddiad newydd wedi nodi data oddi ar 1997 nad oedd wedi cael ei gyhoeddi cyn hynny.

## Llifogydd

- Dangosydd 31a *Y gost flynyddol oherwydd llifogydd*. Mae'r dangosydd hwn yn cael ei roi ar waith ar hyn o bryd drwy'r "Nifer o eiddo preswyl a busnes sy'n elwa o risg is o lifogydd yn sgil cynlluniau gwelliannau cyfalaf a chynnal a chadw a gwblhawyd ym mhob blwyddyn ariannol". Nid yw'n fesur o'r gost flynyddol oherwydd llifogydd. Mae'r nifer o eiddo sy'n cael ei amddiffyn yn 2009/10 ddwywaith yn fras y nifer a gafodd ei amddiffyn yn 2008/09, er ei fod yn llai nag yn 2005-06 a 2006-07. Bydd y nifer o eiddo sy'n cael ei amddiffyn yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn oherwydd cymhlethdod cynlluniau, cymhareb y cynlluniau sydd wrthi'n cael eu datblygu i'r cynlluniau a gwblheir, cyllideb y rhaglen a ffactorau eraill yn ymwneud â chyflawni cynlluniau. Mae Cam Gweithredu 15 o'r Cynllun Gweithredu diwygiedig yn cynnwys nifer o gamau i roi sylw i'r mater hwn yn cynnwys ymwybyddiaeth gyhoeddus; gweithgareddau rheoli risg llifogydd ac erydu arfordirol; cynyddu'r gallu i wrthsefyll argyfyngau drwy gynyddu'r ddealltwriaeth o risg bosibl. Mae'r buddsoddiad cronnus hyd yma a chyfanswm yr eiddo a amddiffynnwyd hyd yma wedi cynyddu, er bod y gyfradd amddiffyn y flwyddyn wedi amrywio. Cyllideb y rhaglen eleni yw un o'r mwyaf hyd yma. Mae'r Grŵp Dangosyddion yn ceisio gwneud diffiniad y dangosydd hwn yn gliriach erbyn cylch adrodd Rhagfyr 2009.

- Dangosydd 32a - *Lefel y defnydd o'r Llinell Llifogydd*. Bu gostyngiad mawr yn y nifer o alwadau ers y flwyddyn flaenorol. Oherwydd y ffordd y caiff galwadau eu cofnodi yn awr, dim ond galwadau a wneir yn Gymraeg sy'n cael eu cofnodi fel galwadau Cymru yn unig. Nid yw galwadau i'r Llinell Llifogydd o Gymru a wneir yn Saesneg yn cael eu cofnodi fel galwadau Cymru yn unig. Ni ellir cymharu'r data hwn felly â'r blynyddoedd blaenorol gan nad yw'n cydnabod y defnydd o'r Llinell Llifogydd yng Nghymru yn gywir. Bydd angen i adroddiadau'r dyfodol adlewyrchu hyn ac mae Cam Gweithredu 15 (Parhau i weithio i ddatblygu a gweithredu rhaglen o ddulliau newydd o reoli perygl llifogydd yng Nghymru, yn arbennig mewn perthynas â'r camau gweithredu cyfredol) wedi cael ei sefydlu i dargedu pobl sy'n wynebu risg ond dylai hefyd nodi lleoliad y galwadau.

- Dangosydd 35c - *Cydymffurfio gyda 'statws da' dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*. Mae'r rhain yn setiau data newydd, yn adrodd ar statws ecolegol, cemegol a dŵr daear. Roedd mwyafrif y cyrff dŵr mewn cyflwr canolig neu dda, er nad adroddwyd bod unrhyw un o statws 'uchel'. Roedd statws Cemegol cyrff dŵr yn dda er i gyrff dŵr trosiannol (morydau) fethu (57.3%). Yn gyffredinol roedd ansawdd Dŵr Daear yn dda (62.2%).

## Dull teithio i'r gwaith

- Dangosydd 30a - *Canran y bobl sy'n teithio, gan amlaf, i'r gwaith trwy a) cerdded neu b) beicio*. Mae'r gostyngiad mewn cerdded a beicio yn parhau er gwaethaf Camau Gweithredu 3.10, 3.13. Mae'r Cynllun Gweithredu ar Gerdded a Beicio 2009-2013 yn cynnwys targedau uchelgeisiol i gynyddu cyfranogiad mewn cerdded a beicio ac fe'i lansiwyd ym mis Rhagfyr 2008. Mae'r cynllun hwn yn cynnwys 30 nod er mwyn cyrraedd y targedau hyn i annog pobl i ddefnyddio dulliau cludiant mwy cynaliadwy. Mae Dringo'n Uwch - sy'n creu Strategaeth i Gymru ar hamdden egnïol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn o bryd. Nid yw'r naill strategaeth na'r llall wedi bod ar waith yn ddigon hir i gael unrhyw effaith amlwg adeg yr adroddiad hwn.

## Datblygu dangosyddion

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi paratoi Cynllun Gweithredu diwygiedig i ddatblygu dangosyddion heb unrhyw ddata. Mae Is-grŵp Dangosyddion y Strategaeth Amgylcheddol wedi datblygu 3 dangosydd drwy brosiectau ymchwil a datblygu. Dangosyddion ar fioamrywiaeth, cysylltiadau rhwng cynefinoedd ac amrywiaeth genetig yw'r rhain. Drwy gydweithrediad â phartneriaid, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu dangosyddion pellach.

Un o'r materion y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ceisio rhoi sylw iddo drwy waith yr Is-grŵp Dangosyddion yw cymhlethdod y rhyngweithio rhwng llawer o'r dangosyddion. Mae dangosyddion sy'n dangos tueddiadau positif, ond gallai hyn adlewyrchu dylanwad dangosyddion eraill.

Cyfunodd y 2 adroddiad diwethaf y categori adrodd - "Dim tuedd amlwg" a "Chyson". Er bod hyn yn fuddiol, mae angen deall cyfradd newid naturiol dangosyddion, a pha mor gyflym y gall hyn newid mewn ymateb i ffactorau sbarduno megis newid yn yr hinsawdd, rheoli tir a lefelau llygredd. Mae'r math hwn o wybodaeth yn help i ddeall a yw newidiadau'n arwyddocaol ai peidio. Efallai na fydd tueddiadau tymor byr yn adlewyrchu'r gwir ddarlun o'i gymharu â'r tueddiadau tymor hir. Er enghraifft, gall tueddiadau bioamrywiaeth ddangos amrywiadau tymor byr sydd efallai'n gwrthddweud y tueddiadau tymor hir. Mae angen i effeithiolrwydd y polisïau hyn gael ei ystyried yng ngoleuni'r tueddiadau tymor hwy. Mae angen cymryd camau i ddadansoddi tueddiadau yn y data er mwyn llunio casgliadau cliriach.

# Pennod 4

## Y diweddaraf am sut mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn cael ei symud ymlaen mewn strategaethau, cynlluniau a rhaglenni eraill gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

### 1. Y Strategaeth Wastraff (ymgynghoriad rhwng 29 Ebrill a 22 Gorffennaf 2009)

Cyfeirir at y dyhead mewn perthynas â gwastraff a'r pedwar canlyniad a nodwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol drwy Strategaeth Wastraff Cymru ar ei hyd, ac maent wedi cael eu hymgorffori ynddi. Buom yn ymgynghori ynghylch y strategaeth, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, ar ei ffurf ddrafft, yn ystod yr haf. Mae'r cynigion yn y strategaeth wedi'u bwriadu i ddatblygu Cymru'n genedl heb wastraff erbyn 2050 - gan leihau cyfraniad gwastraff i ôl-troed ecolegol Cymru, peidio â chynhyrchu gwastraff o gwbl yn y tymor hir, dylunio i atal gwastraff a chynhyrchu a defnyddio cynaliadwy. Mae'r strategaeth hefyd yn hyrwyddo cymdeithas sy'n ailgylchu llawer iawn erbyn 2025 - 70% o leiaf o ailgylchu ar draws pob sector, gwahanu deunyddiau ailgylchu yn y tarddle, ailgylchu dolen gaeedig a graddol gael gwared ag unrhyw wastraff gweddilliol o dirlenwi.

Rhestrir prif benawdau arfaethedig ar gyfer y Strategaeth ddrafft a manylir ar y rhai sy'n berthnasol i'r Strategaeth Amgylcheddol.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 7, 8, 9, 10, 12 a 12.**

### 2. Coetiroedd i Gymru (cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2009)

Mae strategaeth goedwigaeth Llywodraeth y Cynulliad, *Coetiroedd i Gymru*, a adolygwyd ac a ail-lansiwyd ym mis Mawrth 2009, yn cyfrannu tuag at wireddu'r Strategaeth Amgylcheddol. Nid yn unig y mae coetiroedd a choed yn darparu manteision amgylcheddol a chynhyrchion adnewyddadwy fel coed yn lle defnyddiau a thanwyddau ffosil sy'n drwm ar garbon, ond maent hefyd yn darparu gwasanaethau ecosystem ehangach. Mae'r rhain yn cynnwys gwarchod priddoedd ac ansawdd dŵr, gwarchod bioamrywiaeth, darparu cysgod mewn ardaloedd trefol a chloi carbon mewn coed a llystyfiant arall a geir mewn coetiroedd a phriddoedd - yn ogystal â chyfleoedd mynediad a hamdden yn yr amgylchedd naturiol. Mae'r strategaeth *Coetiroedd i Gymru* wedi cael ei seilio drwyddi draw ar gynaliadwyedd a rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 7, 8, 16, 18, 19, 20, 21, 23, 27, 29, 35 a 36.**

## 3. Polisi Cynllunio Cymru (cyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002)

Mae Polisi Cynllunio Cymru a'r gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Prif swyddogaeth y gyfundrefn gynllunio yw dal y ddysgl yn wastad rhwng agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol datblygu cynaliadwy a'u hintegreiddio. Mae'n sicrhau bod cartrefi newydd, seilwaith, buddsoddiad a swyddi'n cael eu darparu mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion cynaliadwyedd. Mae'r egwyddorion a'r camau gweithredu a nodwyd yn y Strategaeth Amgylcheddol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu symud ymlaen pan fydd y polisi cynllunio cenedlaethol neu'r canllawiau'n cael eu hadolygu. Er enghraifft, ers i 2il Gynllun Gweithredu'r Strategaeth Amgylcheddol gael ei lansio, mae polisi cynllunio newydd wedi cael ei gyflwyno yn ei gwneud yn ofynnol i'r rhan fwyaf o adeiladau newydd gyrraedd safonau amgylcheddol uwch na'r rhai a nodwyd yn y Rheoliadau Adeiladu. Darparwyd canllawiau wedi'u diweddaru hefyd ar sut y gall y gyfundrefn gynllunio helpu i warchod a gwella cadwraeth natur.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 4, 17, 24, 25, 26 a 27.**

## 4. Cynlluniau Datblygu Unedol a Chynlluniau Datblygu Lleol y dyfodol

Rhaid i gynlluniau datblygu statudol ystyried y polisi cenedlaethol, ymysg pethau eraill. Mae'n ofynnol drwy statud i'r Awdurdodau Cynllunio Lleol baratoi Cynlluniau Datblygu Lleol gyda'r nod o gyfrannu tuag at sicrhau datblygu cynaliadwy, a chynnal Arfarniadau Cynaliadwyedd ac Asesiadau Amgylcheddol Strategol fel rhan annatod o'r broses o baratoi cynllun.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 4, 17, 24, 25, 26 a 27.**

## 5. Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy (cyhoeddwyd ym mis Hydref 2008)

Ym mis Hydref 2008, cwblhaodd a chyhoeddodd yr olaf o'r awdurdodau lleol ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy. Darparwyd £1.7 miliwn o Gyllid Mynediad gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2008/09 i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn cael eu rhoi ar waith gan yr awdurdodau lleol. Ar draws Cymru, cafodd rhyw 5,000 cilometr o'r rhwydwaith llwybrau ei wella hyd at safon Hwylustod Defnyddio sy'n cynrychioli 15% yn fras o'r holl hawliau tramwy yng Nghymru. Cafodd o leiaf un prosiect ei gyflawni ym mhob awdurdod lleol gyda'r nod o wella Mynediad i Bawb e.e. pobl o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf a'r rhai sydd â phroblemau symudedd.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 23, 27, 29 a 30.**

## 6. Newid yn yr Hinsawdd

Mae Comisiwn Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd, y mae ei aelodaeth yn adlewyrchu trawstoriad eang o gymdeithas Cymru, wedi chwarae rôl allweddol yn datblygu ein hymgynghoriadau ar y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd. Mae'r ymgynghoriadau hyn yn cynnwys cynigion am bolisïau i gyrraedd targed Cymru'n Un o ostyngiad o 3% yn ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr yn y meysydd y mae gennym gymhwysedd datganoledig ynddynt erbyn 2011, ac i ymaddasu i'r effeithiau hynny sydd eisoes yn anochel oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

Rydym yn codi ymwybyddiaeth o fesurau lliniaru ac ymaddasu ar draws Cymru gyda'n hymgyrch gyfathrebu genedlaethol, hyrwyddwyr newid hinsawdd a gweithdai cymunedol. Rydym hefyd yn gweithio gydag adrannau ar draws Llywodraeth y Cynulliad gyda'r nod o sicrhau bod y newid yn yr hinsawdd yn cael ei ystyried fel rhan greiddiol o bob penderfyniad a wnawn fel llywodraeth.

Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni ym mis Mawrth 2009 a daeth yr ymgynghoriad i ben ddechrau Mehefin 2009.

Caiff yr ymatebion eu dadansoddi a bydd crynodeb ac ymateb yn cael eu cyhoeddi'n fuan. Byddir yn ymgynghori ynghylch y diweddariad i *Ddeddf Cartrefi Cynnes ac Arbed Ynni 2000: Ymrwymiad Tlodi Tanwydd i Gymru* ym mis Medi 2009.

Rydym yn dal i gynnig grantiau ac, yn amodol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch y Cynllun Cenedlaethol Effeithlonrwydd ac Arbed Ynni, byddwn yn ymgynghori ynghylch newidiadau i'r Rheoliadau sy'n rheoli'r Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref yn ddiweddarach eleni ac yn treialu'r 'dull tŷ-cyfan' yn yr hydref.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 7, 8 a 25.**

## 7. Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad - Creu Dyfodol Cadarn (cyhoeddwyd ym mis Mai 2009)

Ffermio, Bwyd a Chefn Gwlad fydd strategaeth drosfwaol yr Adran Materion Gwledig ac mae'n amlwg yn gydnaws â'r Strategaeth Amgylcheddol, er y caiff y canlyniadau eu cyflwyno drwy ei gwahanol is-strategaethau. Drwy sefydlu'r blaenoriaethau amgylcheddol lefel uchel yn rhan greiddiol o bob gweithgarwch, e.e. lefel yr allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau gwastraff, y gyfarwyddeb fframwaith dŵr, byddwn yn sicrhau bod sylw llawn yn cael ei roi i'r rhain mewn datblygiadau polisi cyfredol ac yn natblygiadau polisi'r dyfodol. Mae hefyd yn nodi'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gyflawni canlyniadau amgylcheddol a, thrwy ei strwythur adrodd, datganiad blynyddol i gyfarfod llawn ac adroddiad cyhoeddus, bydd yn gwneud hynt y strategaeth yn broses dryloyw.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 7, 8, 9, 11, 12, 13, 14, 16, 20, 23, 34, 35 a 36.**

## 8. Cynllun Gofodol Cymru (diweddarwyd ym mis Gorffennaf 2008)

Mae Grwpiau Gofodol Cymru ar wahanol gamau yn eu datblygiad o ran gweithredu amgylcheddol. Arweiniodd Gweithdai Rhad-ar-garbon a gynhaliwyd ym mis Mai at ailgloriannu blaenoriaethau mewn rhai ardaloedd. Bydd y canfyddiadau o'r gweithdai hyn yn mynd i Grwpiau Gofodol Cymru i gael eu dadansoddi. Mae'r adroddiad ar Ranbarthau Carbon Isel i fod i ymddangos yn yr haf a bydd yn dylanwadu ar gynlluniau cyflawni'r dyfodol.

Mae'r cysyniad o *Ranbarth Amgylcheddol Rhwydweithiol* yn cael ei dreialu yn Ne-ddwyrain Cymru a gallai gael ei gyflwyno yn ardaloedd eraill y Cynllun Gofodol. Mae blaenoriaethau wedi cael eu nodi ac mae gwaith yn mynd rhagddo gyda phartneriaid i ddatblygu a phrofi'r syniadaeth.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 1, 2, 3, 4, 7, 8, 9 ac 11.**

## 9. Cyflawni Ein Potensial 2006 - 2013 (adolygwyd yn 2006)

Un o bedwar nod strategol Cyflawni Ein Potensial, y strategaeth genedlaethol i Gymru ar dwristiaeth, a adolygwyd yn 2006, yw 'Cydnabod yr angen i sicrhau dyfodol cynaliadwy, tymor hir drwy reoli cyrchfannau a busnes yn gyfrifol'. Fel rhan o'r cynllun gweithredu, paratowyd Fframwaith i Dwristiaeth Gynaliadwy yn 2007 fel arweiniad i ddarparu twf ac arferion gwaith cynaliadwy mewn ffordd integredig. Sefydlwyd Fforwm Twristiaeth Gynaliadwy yn 2007, gyda rhanddeiliaid allweddol arno, i hwyluso ffordd integredig o ymdrin â datblygu a gweithredu cynlluniau a fwriadwyd i wneud Cymru'n gyrchfan mwy cynaliadwy. Mae'r strategaeth yn cyfrannu at nod 3 y Cynllun Gweithredu Amgylcheddol - Mynediad a Hamdden drwy ei chefnogaeth i datblygu twristiaeth gweithgareddau.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 23, 29 a 30.**

## 10. Strategaeth ar Dwristiaeth Arfordirol (cyhoeddwyd ym mis Mai 2008)

Roedd y Strategaeth ar Dwristiaeth Arfordirol a gyhoeddwyd yn 2008 yn gam gweithredu cenedlaethol yn deillio o fersiwn gyntaf Cynllun Gofodol Cymru. Diben y Strategaeth ar Dwristiaeth Arfordirol yw nodi ffordd glir ymlaen i ddatblygu twristiaeth arfordirol, sy'n gwireddu ac yn adeiladu ar botensial economaidd morlin Cymru ac ar yr un pryd yn parchu ei ansawdd amgylcheddol ac yn cydnabod pwysigrwydd gwireddu manteision cymunedol. Mae'r strategaeth yn cynnwys y nodau penodol a ganlyn:

- Sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn cyfrannu'n gynyddol tuag at economi cymunedau arfordirol.
- Sicrhau ffordd integredig o ymdrin â datblygu a rheoli twristiaeth.

- Diogelu ac amddiffyn yr amgylchedd a'r dreftadaeth ddiwylliannol fel adnodd allweddol.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 13, 22, 23, 29 a 35.**

## 11. Y Strategaeth Swyddi Gwyrdd (a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2009)

Lansiwyd y Strategaeth Swyddi Gwyrdd, 'Gwireddu'r Potensial', ym mis Gorffennaf 2009. Hon yw'r strategaeth drosfwaol er mwyn i Lywodraeth y Cynulliad wireddu economi gynaliadwy i Gymru, a bydd yn elfen dyngedfennol wrth i Gymru weddnewid ei hun yn genedl gynaliadwy.

Mae'r strategaeth yn nodi camau gweithredu o dan dair blaenoriaeth allweddol:

- Rhoi Cymorth i Fusnesau.
- Meithrin Arloesedd a Thechnoleg.
- Buddsoddi mewn Economi Fwy Cynaliadwy.

Bydd gweithredu'r strategaeth yn cael ei ymgorffori mewn cynlluniau busnes ar draws y Cynulliad a phartneriaid ehangach.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 4, 7, 9, 10, 12 a 14.**

## 12. Cynigion i godi tâl am fagiau siopa untro

Ymgynghorodd Llywodraeth y Cynulliad ynghylch cynnig i godi tâl am fagiau siopa untro yn ystod haf 2009. Drwy'r cynnig hwn mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn gobeithio:

- gostwng y nifer o fagiau siopau untro yn sylweddol;
- annog newid ehangach o ran ymddygiad gyda defnyddwyr yn ailddefnyddio bagiau; bydd hyn yn help i ymladd newid yn yr hinsawdd drwy gynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol; a
- gwella ansawdd yr amgylchedd lleol drwy leihau sbwriel ar ffurf bagiau siopa untro.

Mae'r cynigion i godi tâl am fagiau siopa untro yn ategu amcanion uchelgeisiol y Strategaeth Amgylcheddol, y Cynllun Datblygu Cynaliadwy a'n huchelgais i ddod yn genedl ddiwastraff drwy fynd i'r afael â gorddefnyddio, annog ailddefnyddio a chynyddu ymwybyddiaeth amgylcheddol.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 1, 2, 3, 6, 8, 9, 10, 12, 28.**

## 13. Cymunedau yn Gyntaf

Cymunedau yn Gyntaf yw prosiect blaenllaw Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella amodau byw a rhagolygon pobl yn y cymunedau mwyaf difreintieidig ar draws Cymru.

Egwyddor allweddol y Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw y dylai fod gan bob ardal Cymunedau yn Gyntaf Bartneriaeth a fydd yn galluogi pobl leol i gyfrannu, ar y cyd â phartneriaid, at adfywio'u hardal.

Rhaid i waith pob Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf gael ei arwain gan Fframwaith Gweledigaeth Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r Fframwaith yn nodi blaenoriaethau thematig Llywodraeth y Cynulliad a gall Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf fapio'u gweithgareddau yn erbyn y rhain i ganfod ble mae blaenoriaethau'r gymuned yn cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r Fframwaith Gweledigaeth yn cynnwys chwe thema fras, ac un o'r rheini yw'r Amgylchedd. Y Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf sy'n pennu'r blaenoriaethau gweithredu yn eu hardal leol ac mae llawer yn dewis canolbwyntio ar faterion amgylcheddol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd i gynhyrchu pecynnau cymorth lleol i roi arweiniad i'r partneriaethau ar wireddu'r canlyniadau a ddymunir.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 1, 3, 4, 6.**

## 14. Y Strategaeth Forol

Rydym am ddefnyddio'r holl bwerau newydd a gyflwynwyd gan Fesur y Môr a Mynediad i'r Arfordir i'n helpu i gyflawni ein nod. Fel cam cyntaf, yr ydym yn ymgynghori ynghylch strategaeth ddrafft ar gyfer Ardaloedd Morol Gwarchodedig yng Nghymru - 'Gwarchod Moroedd Cymru'. Mae'r strategaeth yn nodi sut y bwriadwn ddefnyddio'r pŵer newydd o dan y Mesur i ddynodi Parthau Cadwraeth Morol yn nyfroedd Cymru i helpu i amddiffyn a gwella ecosystemau ac i gyflawni rhwymedigaethau rhyngwladol a chyfreithiol. Ein bwriad hefyd yw mai ni fydd yr Awdurdod Cymwys yng nghyswllt dyfroedd Cymru o ran gweithredu Cyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol er mwyn chwarae rhan lawn yn cyfrannu at y 'Statws Amgvlcheddol Da' sy'n ofynnol yn ôl y gyfarwyddeb.

**Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a hybir: 1, 2, 4, 21, 22, 23.**

## 5. Crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd yn erbyn y camau gweithredu yng Nghynllluniau Gweithredu cyntaf ac ail y Strategaeth Amgylcheddol

Yn yr adran hon ceir crynodeb o'r cynnydd yn erbyn y camau gweithredu cyfredol yn y cynlluniau gweithredu cyntaf ac ail. Darperir atodiad technegol manylach ar wahân i'r adroddiad hwn, ar wefan y Cynulliad, yn rhoi gwybodaeth ddiweddaru am bob un o'r camau gweithredu. Mae'r crynodeb hwn hefyd yn rhoi enghreifftiau lle mae sefydliadau penodol wedi ymgymryd â gweithgarwch sy'n cyfrannu at ganlyniadau ein Strategaeth Amgylcheddol.

## Thema 1 - Bioamrywiaeth

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 2, 3, 4, 8, 16, 19, 20, 21, 23*

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn nodi sut y bydd Cymru yn ymdrin â'i rhwymedigaethau rhyngwladol a'r angen i atal colli bioamrywiaeth ac i warchod safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol, Cymreig a lleol yn yr amgylchedd ehangach.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae'r ymdrechion i sicrhau bod safleoedd dynodedig mewn cyflwr ffafriol wedi cael eu cryfhau drwy gofnodi data ar Gronfa Ddata Gweithredu'r Cyngor Cefn Gwlad o Safleoedd Rhyngwladol am 50% o'r Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig sy'n weddill. Mae pob safle sy'n dod o dan ddynodiad Natura 2000 eisoes wedi cael ei gofnodi ar y gronfa ddata. Bydd partneriaid Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu adolygu'r data hwn a gweithredu arno drwy seilwaith allrwyd, sydd i gael ei lansio yn y cylch adrodd nesaf. Mae'r partneriaid hynny yn defnyddio rhestrau gweithredu Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd i benderfynu pa gamau y mae angen eu cymryd.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyflwyno gwell canllawiau, sy'n adlewyrchu rhestr gyfeirio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, i'r awdurdodau cynllunio, yr awdurdodau lleol a'r heddluoedd. Rydym hefyd wedi cael cyfarfodydd i roi rôl gliriach i Wasanaeth Erlyn y Goron ac Arolygiaeth Wledig Cymru wrth ddelio â safleoedd dynodedig.
- Bydd Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig yn arf allweddol i ddiogelu bioamrywiaeth ar draws Cymru. Mae'r dyletswyddau sy'n disgyn ar awdurdodau cyhoeddus o dan y Ddeddf wedi cael eu cyfleu ar draws holl adrannau Llywodraeth Cynulliad Cymru ac mae cyfarfodydd wedi cael eu cynnal hefyd gyda'r Hyrwyddwyr Bioamrywiaeth o bob awdurdod lleol yng Nghymru i sicrhau eu bod yn cyflawni eu rhwymedigaethau.
- Mae canllawiau ychwanegol wedi cael eu rhoi i awdurdodau cynllunio lleol fel rhan o'u dyletswydd o dan adran 42 o Ddeddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig i restru organebau byw a chynefinoedd o'r pwys

pennaf i'r diben o gadw bioamrywiaeth. Rhagwelir y bydd y Pecyn Cymorth Mannau Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r gwaith hwn.

- Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi cefnogi datblygu naw o grwpiau ecosystemau newydd a fydd yn hybu targedau o dan y Cynllun Gweithredu newydd ar Fioamrywiaeth i Gymru. Mae nifer o sefydliadau ar draws Cymru yn gwella'u defnydd o'r System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth a gwasanaethau'r ganolfan Cofnodion Lleol.
- Mae atal troseddau bywyd gwyllt yn flaenoriaeth allweddol o dan Gynllun Gweithredu Cymru ar Fioamrywiaeth. Cafodd hyn ei gryfhau yn ystod y cyfnod adrodd drwy barhau â secondiadau heddlu sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt ar cyd â'r Cyngor Cefn Gwlad, yn ogystal â sefydlu fforwm ar Droseddau Bywyd Gwyllt ar y cyd rhwng yr heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron. Cynhaliwyd seminar ar y cyd â phartneriaid allweddol.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae pedwar o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru: Cadwraeth Glöynnod Byw, Coed Cadw/the Woodland Trust, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac RSPB Cymru, yn berchen ar ac yn cynnal gwarchodfeydd ac ardaloedd o dir, llawer ohonynt yn SDdGA, Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae'r pedwar yn rheoli'r safleoedd hyn gyda'r nod o'u gwella fel eu bod mewn cyflwr ffafriol a chadw bioamrywiaeth.

Mae'r RSPB yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol drwy faterion gwaith achos cynllunio lle mae datblygiadau'n effeithio'n uniongyrchol ar flaenoriaethau bioamrywiaeth, un ai i wrthwynebu datblygiadau neu i hyrwyddo pecynnau lliniaru neu wneud iawn. Mae'r RSPB hefyd yn gwneud gwaith eiriol gyda Llywodraeth y Cynulliad a'r Cynulliad Cenedlaethol, yn darparu cyngor ynglŷn â pholisi i sicrhau bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i fioamrywiaeth.

Mae tri o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn ymwneud â phrosiectau cadwraeth ar raddfa tirwedd, yn cefnogi ystlumod, glöynnod byw a gwyfynod, a chynefinoedd coetir. Cadw bioamrywiaeth yw amcan allweddol y prosiectau hyn ac mae gwaith gwirfoddoli yn hynod o werthfawr i'w llwyddiant.

Mae gan bump o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru staff sy'n gweithio gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy gymryd rhan mewn Cynlluniau Gweithredu ar Fioamrywiaeth, Grwpiau Rhywogaeth a Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Yr aelodau yw'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod, Cadwraeth Glöynnod Byw, Coed Cadw, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ac RSPB Cymru.

Mae'r Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod ac RSPB Cymru yn gweithio'n benodol gyda'r heddlu a Llywodraeth y Cynulliad i ymladd troseddau bywyd gwyllt, ac maent wedi sicrhau sawl erlyniad llwyddiannus. Mae gan yr

Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod swydd benodol i Swyddog Ymchwiliadau sy'n gweithio ar droseddau yn erbyn ystlumod, ac mae'r RSPB yn neilltuo amser staff i waith eiriol a chyswllt â'r heddlu ynglŷn â throseddau adar.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd wedi creu dros 110Ha o gynefinoedd newydd drwy brosiectau mewnol a phrosiectau partneriaeth ar draws Cymru yn 2008/09 ochr yn ochr â gwaith yn ymwneud â rhywogaethau dŵr penodol (e.e. cregyn gleision perlau dŵr croyw) a gweithgareddau i wella coridorau afonydd. Mae'r gwaith cyflenwi hwn ar lawr gwlad yn ychwanegol at y cyngor a ddarperir a'r canlyniadau buddiol a geisir i flaenoriaethau bioamrywiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy waith Asiantaeth yr Amgylchedd ar geisiadau a chaniatadau cynllunio.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn rhoi cefnogaeth fyw i waith Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru drwy ddarparu cyngor, cyfarwyddyd ac amser staff i'r Grŵp Llywio a llawer o'i is-grwpiau. Mae hefyd wedi bod yn gweithio gyda'r Cyngor Cefn Gwlad ar y broses o wella safleoedd gwarchodedig fel eu bod mewn cyflwr ffafriol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn helpu i wella'r defnydd a wneir o wybodaeth bioamrywiaeth a'r adroddiadau ar ganlyniadau ar draws Cymru drwy sefydlu cytundeb mynediad at wybodaeth gyda phob un o 4 Canolfan Cofnodion Lleol Cymru a thrwy roi manylion ein prosiectau bioamrywiaeth yn uniongyrchol ar y System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth.

## Thema 2 - Morol

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 3, 4, 8, 20, 22, 23, 35*

Mae'r Strategaeth Amgylcheddol yn nodi'r angen i gynnal a gwella ansawdd amgylcheddol morol Cymru, ac i weithio'n ddiwyd i'w reoli yn y tymor hir. Yn ystod y cyfnod adrodd, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu dull o weithredu'r Mesur Morol, y disgwylir iddo gael Cydsyniad Brenhinol yn y cyfnod adrodd nesaf, fesul cam. Bwriedir cynnal ymgynghoriad ynghylch y fframwaith er gweithredu'r Mesur yn 2010.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Bydd Cynlluniau Gofodol Morol yn elfen allweddol mewn ymdrechion i gynnal yr amgylchedd morol ac mae gwaith yn mynd rhagddo'n dda i gyflwyno'r cynlluniau erbyn 2013/14.
- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wrthi'n gweithio'n agos gyda'i gilydd mewn ymdrech i ddarparu parthau cadwraeth morol gyda lefel uchel o warchodaeth erbyn 2012. Cefnogir y gwaith hwn gan Grŵp Llywio, Cyngor Technegol a Rhanddeiliaid. Disgwylir i ardaloedd arfaethedig y dynodiad fod yn barod i ymgynghori yn eu cylch erbyn diwedd 2011 neu ddechrau 2012.

- Mae adroddiadau'n cael eu darparu'n flynyddol erbyn hyn ar y cynnydd yn erbyn y Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol. Bydd adroddiad 2009 ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad yn fuan. Bydd y Strategaeth Rheolaeth Integredig ar Barthau Arfordirol ei hun yn cael ei hadolygu erbyn mis Gorffennaf 2010.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae tri o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi darparu cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ac wedi cymryd rhan yn y fforymau perthnasol i drafod datblygiad y Mesur Morol newydd. Mae'r Gymdeithas Cadwraeth Forol, y WWF a'r RSPB wedi neilltuo amser staff sylweddol i weithio ar ddatblygu'r Mesur hwn. Prif amcanion y gwaith hwn oedd cadw bioamrywiaeth forol ac arferion pysgota cynaliadwy.

Mae pedwar o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cynllunio gofodol morol, yn cynnwys yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, sydd wedi bod yn edrych ar faterion sy'n effeithio ar ardaloedd arfordirol lle mae rheolaeth tir a rheolaeth forol yn rhyngweithio. Mae'r WWF wedi comisiynu prosiect ar faterion cynllunio morol trawsffiniol, o'r enw "Across the Water", ac mae wedi bod yn gweithio gyda Grŵp Gorchwyl Cynllunio Morol Partneriaeth Arfordirol a Morol Cymru.

Mae'r pedwar aelod uchod o Gyswllt Amgylchedd Cymru wedi bod yn gweithio'n ddyfal gyda'r Cyngor Cefn Gwlad a Phartneriaeth Arfordirol a Morol Cymru i ddatblygu syniadau a rhoi cyngor ynglŷn â'r broses o ddynodi Gwarchodfeydd Morol Gwarchodedig Iawn. Mae'r Gymdeithas Gwarchodaeth Forol yn helpu i ennyn diddordeb y cyhoedd yn y mater hwn gyda'i phrosiect 'Your Seas Your Voice' ac mae pob un o'r pedwar aelod yn cyfrannu'n llawn at y broses hon.

## Thema 3 - Mynediad a hamdden

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 20, 23, 27, 29, 30*

Mae darparu mynediad at yr amgylchedd naturiol a rhoi'r cyfle i bobl i fwynhau eu hamgylchoedd yn elfen allweddol o'r strategaeth amgylcheddol.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gerdded a beicio wedi gosod targedau i gynyddu'r nifer o blant sy'n cerdded a beicio i'r ysgol, oedolion sy'n cerdded a beicio i'r gwaith a phobl sy'n cerdded a beicio er mwyn pleser. Mae'r Grŵp Llywio i oruchwylio hyn wedi parhau i gwrdd.

- Mae'r prif ganlyniadau cyntaf o Arolwg Hamdden Awyr Agored cyntaf Cymru 2008 ar gael erbyn hyn. Mae'r canfyddiadau'n cynrychioli atebion trigolion Cymru ynglŷn â'u defnydd o'r awyr agored, y mannau yr ymwelwyd â nhw, a materion eraill fel yr hyn sy'n eu hysgogi a rhwystrau. Comisiynwyd yr arolwg ar y cyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru.
- Mae morlin Cymru yn un o'i nodweddion allweddol ac mae'n denu nifer fawr o dwristiaid yma bob blwyddyn. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi pwyslais mawr ar gynnal a gwella'r cyfleoedd hamdden ar y dŵr. Yn ystod y cyfnod adrodd, dyfarnwyd Gwobr Baner Las i 38 o draethau a phum marina, dyfarnwyd Gwobr Arfordir Glas i 44 o draethau a dyfarnwyd Baner Gwobr Glan y Môr i 104 o gyrchfannau a thraethau gwledig.
- Mae cyllid penodol o £400,000 y flwyddyn ar gyfer prosiectau hamdden dŵr ar gael erbyn hyn drwy Sblash - cronfa her gweithgareddau hamdden dŵr Cymru. Mae 20 o brosiectau wedi cael cymorth drwy'r gronfa hon hyd yma.
- Mae gwaith yn parhau ar y Rhaglen i Wella Mynediad Arfordirol, gyda gwariant llawn o £2m yn 2008/9, a £2m wedi'i ddyrannu ar gyfer 2009/10. Darperir £3.9 miliwn o arian cyfatebol ar ffurf cyllid cydgyfeirio i fynd law yn llaw â chyllid Llywodraeth y Cynulliad dros y pum mlynedd nesaf, yn dilyn cais llwyddiannus gan y Cyngor Cefn Gwlad am gyllid o dan y thema Amgylchedd ar gyfer Twf. Bydd manylion hyd y darnau o lwybrau a ddarparwyd (llwybrau newydd, mynediad i feicwyr ac ati) yn cael eu cwblhau yn yr adolygiad canol tymor o'r Rhaglen i Wella Mynediad Arfordirol, a ddechreuodd yn haf 2009.
- Mae llawer o fanteision lles yn deillio o brofi'r byd naturiol, yn cynnwys gwelliannau iechyd yn sgil gweithgarwch corfforol yn beicio neu'n cerdded a gwell diet o ganlyniad i fwyd lleol, sy'n cael ei gynhyrchu'n gynaliadwy. Mae Her Iechyd Cymru yn gweithredu fel cyfrwng cyflenwi allweddol o ran y newidiadau hyn. Mae Cynllun Grantiau Sector Gwirfoddol Her Iechyd Cymru wedi darparu cymorth ymarferol i 30 o ymarferwyr yn y cyfnod adrodd gan ganiatáu iddynt ddatblygu 3 phrosiect 'Tiroedd Iechyd', 13 prosiect 'Campfa Werdd' ac 1 prosiect 'Dolenni a Chysylltiadau'.
- Ar lefel awdurdodau lleol mae pecyn cymorth mannau gwyrdd y Cyngor Cefn Gwlad yn cael ei ddefnyddio i asesu hygyrchedd a naturioldeb mannau gwyrdd mewn ardaloedd trefol neu adeiledig a'u cyffiniau. Mae 15 awdurdod lleol un ai wedi cwblhau neu yn y broses o gwblhau'r asesiad.

## Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae tri aelod o Gyswllt Amgylchedd Cymru yn ymwneud yn arbennig â phrosiectau sy'n debygol o gynyddu'r lefelau beicio a cherdded yng Nghymru. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Chymdeithas yr Hostelau Ieuenctid yn darparu mynediad, llety a chyfleusterau i gerddwyr a beicwyr i wella ac annog mynediad i gefn gwlad. Mae Sustrans wedi sefydlu sawl prosiect mawr i gynyddu'r seilwaith cerdded a beicio mewn trefi a dinasoedd, gan greu cilometrau o lwybrau beicio a cherdded newydd, a fydd yn cysylltu â mwynderau hanfodol ac yn annog cerdded a beicio fel dewis amgen ymarferol yn lle siwrneiau drwy drafnidiaeth modur. Prif brosiectau Sustrans yw Connect 2 a Rhwydwaith Beicio'r Cymoedd. Law yn llaw â hyn, mae Sustrans yn gweithio i newid ymddygiad teithio ac mae ganddo amryw o brosiectau sydd wedi'u bwriadu i annog pobl i gerdded a beicio mwy, yn cynnwys *Bike It ac Active Travel*.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, yr RSPB a Chymdeithas yr Hostelau Ieuenctid yn ymwneud llawer â darparu mynediad, yn cynnwys cynnal a chadw llwybrau presennol a darparu mynediad newydd i gerddwyr a beicwyr. Mae hyn yn cynnwys darparu llwybrau sy'n hygyrch i ddefnyddwyr anabl, fel y llwybr newydd sydd bellach yn cysylltu Hostel Ieuenctid Broadway â llwybr yr arfordir. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn darparu mynediad helaeth ar ei thir ac mae'r RSPB wedi bod yn gweithio gydag Awdurdodau Lleol a'r Cyngor Cefn Gwlad i sicrhau nad yw mynediad yn cael effaith negyddol ar fioamrywiaeth bwysig.

Mae rhaglen Campfa Werdd Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain yn darparu cyfleoedd i unigolion i wella'u hiechyd a'u gallu i ymgymryd â gweithgarwch corfforol drwy gadwraeth ymarferol yn hytrach nag ymarfer corff safonol. Mae'r rhaglen yn annog carfan ehangach o'r gymuned i gymryd rhan mewn gweithgareddau amgylcheddol, gan godi ymwybyddiaeth o faterion cadwraeth a'r amgylchedd. Mae 694 o wirfoddolwyr wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Gampfa Werdd, gan ymgymryd â 773 o ddiwrnodau gwaith er mis Ebrill 2008. Yn ystod y cyfnod hwn, mae cangen Cymru o Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain wedi sefydlu/gweithio gyda 17 o grwpiau i hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy ddefnyddio'r amgylchedd.

Cafodd DVD addysgol ei gynhyrchu i roi arweiniad i gerddwyr ceunentydd ar sut i leihau effaith eu gweithgarwch ar yr amgylchedd hynod o sensitif y maent yn gweithredu ynddo. Mae'r DVD 15 munud, a gynhyrchwyd gan Eryri Bywiol, wedi'i anelu at arweinwyr addysg awyr agored ac fe'i cyllidwyd gan raglen grantiau SBLASH a weinyddir gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

## Thema 4 - Rheoli llifogydd a dŵr

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 3, 5, 6, 8, 13, 14, 15, 17, 31, 32, 35, 35*

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae rhagor o lifogydd yn debygol o fod yn ddigwyddiad mwy cyffredin o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn y blynyddoedd i ddod. Bydd y Rhaglen Dulliau Newydd o reoli perygl llifogydd yn ceisio ymateb i'r sialensiau hyn, gan dynnu sylw at y risg i'r rhai sy'n fwyaf agored i lifogydd a rhoi cyngor ar sut y gallant ymateb i hyn. Bydd yr ymgynghoriad ar y Mesur Llifogydd a Dŵr yn nodi'r rolau a'r cyfrifoldebau a fydd yn deillio o'r ddeddfwriaeth.
- Mewn ymateb i'r sialensiau hyn mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datblygu Rhaglen Strategol o brosiectau rheoli risg gyda nawdd Ewropeaidd, ac mae £30m ar gael o'r Rhaglenni Cydgyfeirio.
- Wrth gynnal gallu Cymru i wrthsefyll y peryglon hyn, mae perthynas waith gref wedi datblygu rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd a'r awdurdodau lleol i sefydlu pa risgiau sy'n debygol o godi yn sgil rhagor o lifogydd. Seiliwyd hyn ar lifogydd haf 2007 a'r cynllun gweithredu a ddeilliodd o argymhellion interim Pitt. Mae Grŵp Llifogydd Cymru, a fu'n goruchwylio'r rhaglen waith angenrheidiol, wedi ychwanegu ymhellach at hyn. Mae'n cynnwys camau gweithredu i wella'r ddealltwriaeth o risg, a datblygwyd rhaglen gynhwysfawr i godi ymwybyddiaeth.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi asesu'r perygl llifogydd ac erydu arfordirol ar yr holl arfordir sy'n eiddo i'r Ymddiriedolaeth. Cafodd y data ei rannu gydag Asiantaeth yr Amgylchedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru a grwpiau perthnasol Cynlluniau Rheoli Traethlin. Cafodd asesiad risg manwl o eiddo arfordirol yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei gwblhau i asesu'r asedau sy'n wynebu risg (nodweddion o arwyddocâd naturiol neu hanesyddol, adeiladau, llwybrau mynediad, cyfleusterau hamdden, cartrefi a busnesau). Mae'rcanfyddiadau'n cael eu hymgorffori mewn gwaith cynllunio a rheoli busnes.

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn gweithio i leihau ei heffaith ar ansawdd dŵr ac i wella effeithlonrwydd dŵr. Cafodd archwiliad ei gwblhau o effaith holl eiddo'r Ymddiriedolaeth ar ansawdd dŵr. Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn gweithio i ymdrin â'r problemau a nodwyd. Bydd gwelliannau dalgylch o fudd i fioamrywiaeth.

## Thema 5 - Gwasanaethau Ecosystemau

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 3, 4, 8, 15, 16, 19, 20, 21, 22, 35, 36*

Mae economi Cymru yn elwa o amryw o adnoddau a phrosesau sy'n cael eu darparu gan ei hecosystemau naturiol. Mae sut yr ydym yn rheoli'n tir, yn enwedig o safbwynt bioamrywiaeth, dŵr a charbon yn y pridd, yn dyngedfennol i wasanaethau ecosystemau.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Bu'r Cyngor Cefn Gwlad, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i gytuno ar egwyddorion cymhwyso'r fframwaith asesu ecosystemau, ac i fapio prosiectau yn ymwneud ag ecosystemau yng Nghymru.
- Ar draws Mynyddoedd Cambria cafodd prosiect ei roi ar waith i wneud yn fawr o opsiynau ecosystemau a gwasanaethau. Mae dadansoddiad economaidd ar y gweill, ac mae ymarferiadau ôl-troed carbon yn cael eu cynnal ar nifer o ffermydd.
- Mae Cam II y Polisi Amaethyddol Cyffredin wedi dechrau a bydd yn cynnwys monitro a diweddaru data sylfaenol ar gynhyrchu da byw a defnydd tir. Arweiniodd adolygiad Echel 2 at ddatblygu cynllun 'Glastir', a gaiff ei weithredu o 2010, sy'n llwyr ymgorffori'r cysyniad o gyflenwi gwasanaethau ecosystemau.
- Mae Strategaeth Pysgodfeydd Cymru yn ymrwymo'n gadarn i weithredu ar sail ecosystemau. Mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu cyhoeddi ac maent ar gael ar wefan Llywodraeth y Cynulliad.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol wedi bod yn gweithio ar brosiect graddfa tirwedd i wella gwasanaethau ecosystemau ym Mhen Uchaf Dyffryn Conwy. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gweithio gyda thenantiaid ffermydd i greu rhwystr ar draws draeniau ar rannau o'r orgors er mwyn adfer y lefelau dŵr. Bydd y prosiect hwn yn gwella cyflwr bioamrywiaeth yn yr Ardal Cadwraeth Arbennig.

Mae staff yr RSPB yn cymryd rhan yn yr adolygiad Echel 2, yn darparu cyngor arbenigol a thechnegol ar sut y gellir ailwampio cynlluniau amaeth amgylcheddol er mwyn mynd i'r afael â'r dirywiad ym mhoblogaeth adar allweddol a geir ar dir ffermio a sut mae modd integreiddio hyn â gwasanaethau ecosystemau eraill.

## Thema 6 - Ymchwil a thystiolaeth

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 2, 5, 6, 9, 10*

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae Canolbwynt Ymchwil Amgylcheddol Cymru wedi trefnu gweithdy ar anghenion monitro amgylcheddol, ac wedi paratoi ei adroddiad cychwynnol ar anghenion ymchwil, a gafodd ei ystyried mewn gweithdy ym mis Ionawr 2009. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn gweithio gyda Gweithgor Dangosyddion ei Strategaeth Amgylcheddol, wedi paratoi Cynllun Gweithredu diwygiedig i ddatblygu dangosyddion heb unrhyw ddata.
- Bydd ymchwil yn hollbwysig i alluogi Cymru i symud i fod yn economi a chymdeithas rad-ar-garbon. Cyhoeddwyd Cynllunio ar gyfer Adeiladau Cynaliadwy ym mis Mai 2009. O fis Medi 2009, caiff yr Hawliau Datblygu a Ganiateir eu hymestyn i ganiatáu gosod mwy o amrywiaeth o gyfarpar microgynhyrchu domestig heb orfod cael caniatâd cynllunio, yn amodol ar feini prawf penodol. Bydd argymhellion o'r papur ymgynghori, Cynllunio ar gyfer Newid Hinsawdd, yn cael eu hymgorffori mewn fersiwn gyfunol o Bolisi Cynllunio Cymru.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae RSPB Cymru yn cynhyrchu'r adroddiad Cyflwr Adar yng Nghymru yn flynyddol, gan ddwyn ynghyd y datblygiadau diweddaraf ym maes ymchwil adar, arolygu, monitro a datblygiadau polisi. Caiff y cyhoeddiad hwn ei gynhyrchu mewn partneriaeth â Chyngor Cefn Gwlad Cymru, Cymdeithas Adaregwyr Prydain, Cymdeithas Adareg Cymru ac Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir. Mae'r RSPB yn cynhyrchu dangosydd blynyddol poblogaethau adar gwyllt i Lywodraeth y Cynulliad. Mae hefyd yn gweithio ar raglen ymchwil drwy'r DU gyfan i'r dirywiad ym mhoblogaethau adar, achosion hynny ac atebion posibl, a bydd yn cyhoeddi canlyniadau a goblygiadau'r astudiaethau hyn. Mae'r RSPB wedi cynnal adolygiad desg o'r potensial i gynlluniau amaeth amgylcheddol Cymru fynd i'r afael â'r gostyngiad mewn rhywogaethau y rhoddir blaenoriaeth iddynt. Yr RSPB hefyd sydd â'r contract oddi wrth Lywodraeth y Cynulliad i asesu effeithiolrwydd Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig yn mynd i'r afael â'r gostyngiad mewn rhywogaethau allweddol (contract newydd 2009).

Mae Cadwraeth Glöynnod Byw wedi datblygu Dangosydd drafft i Löynnod Byw Cymru ynghyd â'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, sydd erbyn hyn wedi'i gwblhau. Dylai'r dangosydd hwn gael ei fabwysiadu yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu'r rhai a ddefnyddir ar lefel Ewrop a'r DU ac ar lefel sirol yn Lloegr a'r Alban.

Comisiynodd WWF brosiect ymchwil byr, a gwblhawyd gan ymgynghorwyr E3, er mwyn deall y ffordd orau i Lywodraeth Cynulliad Cymru gyrraedd ei thargedau o 3% y flwyddyn, yn cynnwys dadansoddiad o'r sefyllfa fel yr oedd ar y pryd. Bu'r darn hwn o waith yn ddefnyddiol i'w fwydo i broses y Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd i helpu i ddylanwadu ar y llwybr gorau er gostwng lefelau allyriadau yng Nghymru. Cafodd y gwaith ei fwydo ar adegau perthnasol i'r broses o ddatblygu strategaeth i Gymru ar y newid yn yr hinsawdd.

## Thema 7 - Yr amgylchedd hanesyddol

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 2, 3, 5, 6, 23, 24, 26*

Mae cynnal amgylchedd hanesyddol Cymru er budd cenedlaethau'r dyfodol yn elfen allweddol yn y ffordd yr ydym yn ymdrin â'r amgylchedd. Bydd deall natur ein tirwedd hanesyddol yn allweddol er mwyn i ni gymryd y camau iawn i'w chadw.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae Cadw wedi datblygu rhestr o'r holl adeiladau sydd mewn perygl yng Nghymru ac mae'n gweithio gyda'r Fforwm Treftadaeth Adeiledig i ganfod ffyrdd o ymdrin â materion "mewn perygl".
- Mae rhaglen o nodweddion yr holl dirweddau hanesyddol cofrestredig wedi cael ei chwblhau. Mae astudiaethau peilot o nodweddion trefol Aberdâr, Dolgellau a'r Fflint wedi cael eu cwblhau.
- Cyhoeddodd y Gweinidog Treftadaeth ei Ddatganiad Cyfeiriad Strategol ar gyfer Amgylchedd Hanesyddol Cymru ym mis Medi 2009.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Roedd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol yn aelod o grŵp drafftio datganiad strategol Grŵp yr Amgylchedd Hanesyddol a luniodd y ddogfen gynghori ar gyfer y Gweinidog. Caiff cyngor yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol ei gyhoeddi pan fydd Datganiad Strategol terfynol y Gweinidog ar yr Amgylchedd Hanesyddol yn cael ei lansio'n fuan.

## Thema 8 - Pobl a'r amgylchedd

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 14, 25, 27, 28, 29, 30*

Mae dod â phobl a'u hamgylchedd yn nes at ei gilydd yn her allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae newidiadau positif yn aml yn fwy cynaliadwy gyda chefnogaeth cymunedau lleol a thrwy sianelu'r cyfraniadau y gallant hwy eu gwneud. Mae nifer fawr o wirfoddolwyr gwyrdd ar draws Cymru sydd, gyda'i gilydd, yn gwneud cyfraniadau arwyddocaol tuag at les ein hamgylchedd.

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Cwblhawyd ymarferiad ymchwil ar wirfoddoli gwyrdd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ym mis Tachwedd 2008. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio i ymateb i'r argymhellion a ddarparwyd gan y Cyngor Gweithredu.
- Mae addysg yn elfen allweddol yn yr ymdrechion i gynnal a gwella'r amgylchedd. Mae cyfran sylweddol o'n hysgolion (93%) wedi'u cofrestru gyda chynllun Gwobr y Faner Werdd. Erbyn 2008 - 2009 roedd cyfanswm o 615 o Faneri Gwyrdd Eco-ysgolion wedi cael eu dyfarnu.
- Mae Profiadau Dysgu Awyr Agored yn gynyddol gyffredin drwy addysg y Cyfnod Sylfaen. Mae cyfres o 8 Profiad Dysgu Awyr Agored wedi cael ei darparu i dros 800 o ymarferwyr sy'n gweithio yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Cyngor Cefn Gwlad a Llywodraeth y Cynulliad yn cyllido Dysgu drwy Dirweddau i helpu ysgolion i ddatblygu a chynnal eu mannau awyr agored. Darparwyd Modiwl Hyfforddiant Dysgu Awyr Agored i awdurdodau lleol ym mis Mawrth 2009. Mae Ysgol y Goedwig yn dal i ddarparu ffordd werthfawr o ymdrin â dysgu yn yr awyr agored, ac mae'r nifer o raglenni Ysgolion Coedwig ac ymarferwyr cymwysedig yn dal i gynyddu.
- Cafodd adnoddau dysgu ar y newid hinsawdd eu datblygu a'u cyflwyno i'r Comisiwn ar y Newid yn yr Hinsawdd ym mis Rhagfyr 2008.
- Cychwynnodd y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol nifer o brosiectau sy'n hybu eu hagendâu cynhwysiant cymdeithasol, ac yn ymestyn allan at gymunedau o fewn y parciau cenedlaethol a'r tu allan iddynt. Cafodd prosiect "Dewch allan!" ei brofi a'i werthuso drwy 2 brosiect arddangos, a hyn fydd yn pennu cyfeiriad y peilot yn ei flwyddyn olaf.
- Mae Partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf wedi ymgymryd â llawer o weithgareddau yn ymwneud â defnyddio cefn gwlad a gwella'u hamgylcheddau lleol.
- Cwblhaodd Rhwydwaith Lles Cymru dri phrosiect peilot yn gysylltiedig â'r "Exploring Sustainable Wellbeing Toolkit".

## Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae nifer fawr o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn annog ac yn creu cyfleoedd gwirfoddoli gwyrdd, ac mae gwaith gwirfoddolwyr yn amhrisiadwy o ran gwireddu prosiectau llawer o'n haelodau. Mae'r prosiectau'n amrywio o waith cadwraeth ymarferol i fonitro rhywogaethau sy'n dirywio, megis glöynnod byw a gwyfynod, a chlirio sbwriel a gwastraff arall o'r amgylchedd lleol. Gyda'i gilydd, mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn gweithio gyda miloedd o wirfoddolwyr bob blwyddyn.

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol sy'n berchen ar Ystangbwll ac mae'n rhedeg y ganolfan at ddibenion Addysg Awyr Agored. Mae'r ganolfan wedi cael ei harchredu'n Eco-ganolfan gweithgarwch awyr agored ac yn ganolfan addysg.

Cynhyrchwyd pecyn electronig o adnoddau addysgu i fynd law yn llaw â materion Newid yn yr Hinsawdd mewn perthynas ag wyth maes pwnc y rhaglen Eco-ysgolion. Mae'r pecyn yn cynnwys cynlluniau gwersi ar draws pob un o'r Cyfnodau Allweddol. Caiff ei gwblhau ar ei wedd derfynol a'i ddosbarthu gan Cadwch Gymru'n Daclus i'r 1600+ o Eco-ysgolion yng Nghymru ym mis Medi 09.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi cynhyrchu Mapiau Cwricwlwm i gyd-fynd â'r wyth thema yn y rhaglen Eco-ysgolion a'r fframwaith Dealltwriaeth Gyffredin ym maes Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang ar draws pob un o'r Cyfnodau Allweddol. Caiff y pecynnau hyn eu dosbarthu i'r 1600+ o Eco-ysgolion yng Nghymru ym mis Medi 09.

Mae tîm Eco-ysgolion Cadwch Gymru'n Daclus yn dal i gynorthwyo ac annog ysgolion Cymru i ennill Dyfarniad Rhyngwladol y Faner Werdd. Yn 2007-2008 dyfarnwyd cyfanswm o 113 o Faneri Gwyrdd Eco-ysgolion yng Nghymru. Yn 2008-2009 dyfarnwyd cyfanswm o 206 o Faneri Gwyrdd Eco-ysgolion. Mae'r ganran o ysgolion yng Nghymru sydd wedi cofrestru ar y rhaglen Eco-ysgolion wedi codi i fwy na 90%.

Mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru wedi gwneud profiad ymarferol o'r byd naturiol a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn bosibl i aelodau'r cyhoedd a phlant ysgol. Mae Coed Cadw a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ill dau wedi bod yn cyfrannu at Grŵp Dysgu'r Byd Go-iawn ac mae'r RSPB yn gwahodd cannoedd o blant ysgol i ddigwyddiadau addysgol ar ei warchodfeydd bob blwyddyn. Mae gan yr RSPB hefyd aelod staff sydd wedi cael ei secondio i Lywodraeth y Cynulliad i weithio ar y rhaglen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang. Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid yn darparu llety fforddiadwy i blant ysgol ar dripiau addysgol, yn ogystal ag annog aelodau'r cyhoedd i fwynhau treftadaeth ddiwylliannol Cymru a'r byd naturiol.

Mae Cymdeithas Eryri yn gyfranogwr brwd yn Fforwm Cydraddoldeb Anabledd Eryri a sefydlwyd gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol, sy'n hyrwyddo darpariaeth ar gyfer pob gallu a llwybrau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid yn darparu llety mewn llawer o'i hostelau i ddefnyddwyr anabl. Cafodd Hostel Broadhaven, ym Mharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro, ei adeiladu a'i ffitio'n bwrpasol ar gyfer defnyddwyr anabl, gyda chymorth Awdurdod y Parc Cenedlaethol.

Mae sawl un o aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn cynnwys grwpiau o dan anfantais gymdeithasol mewn prosiectau amgylcheddol ymarferol lle cânt fynediad i gefn gwlad ac at fywyd gwyllt; maent hefyd yn gallu helpu i wella eu hardaloedd lleol. Mae BTCV Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus yn gweithio gyda nifer fawr o unigolion o dan anfantais gymdeithasol mewn mannau amrywiol, ac mae prosiect Cyfrif Ystlumod yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod yn rhoi'r cyfle i grwpiau o dan anfantais i ddysgu mwy am fywyd gwyllt gwerthfawr. Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid a Chymdeithas Eryri ill dwy yn ymwneud â phrosiect Mosaic; nod y prosiect hwn yw annog a chynorthwyo grwpiau lleiafrifoedd ethnig i gyrchu at gefn gwlad a'i fwynhau.

Sefydlwyd cronfa Her gan yr Ymddiriedolaeth Afonydd gan alluogi chwe Ymddiriedolaeth, ledled Cymru, i wneud cais am arian i ddarparu prosiectau gwella cynefinoedd glannau afonydd. Darparodd Ymddiriedolaethau Sir Benfro, Teifi, Sir Gaerfyrddin, Dyfrdwy, Conwy a Chlwyd i gyd brosiectau mewn partneriaeth â thirfeddianwyr lleol gyda'r nod o ddarparu gwella cynefin afonol i bysgod a bywyd gwyllt arall.

Mae Tîm Coetiroedd ar gyfer Dysgu Comisiwn Coedwigaeth Cymru yn gweithio gyda phobl ifanc ac athrawon a gweithwyr addysg proffesiynol eraill i annog defnyddio coetiroedd a choed fel adnodd dysgu. Darparodd y tîm 700 o ymweliadau addysgol â choetiroedd i dros 20,000 o blant yn 2008/09, yn ogystal â darparu 11 o raglenni Ysgolion Coedwig, gan hyfforddi oddeutu 25 o arweinwyr Ysgolion Coedwig a darparu cyfleoedd hyfforddiant athrawon i dros 800 o athrawon drwy HMS a sesiynau min nos.

## Thema 9 - Partneriaeth

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: Pob un.*

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio'n ddyfal gyda'i phartneriaid i wella a chynnal amgylchedd Cymru. Mae Cynllun Gofodol Cymru yn gweithio gyda'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy ar ei adroddiad ar Ranbarthau Carbon Isel a fydd yn sail i gynlluniau cyflenwi'r dyfodol.

- Mae'r dull Rhanbarthau Amgylcheddol Rhwydweithiol, sy'n cael ei dreialu yn Ne-ddwyrain Cymru, yn cael ei ddatblygu a'i brofi gyda phartneriaid.
- Yn 2008-9, bu 15 o gyflogwyr sector preifat yn gweithio tuag at Ddyfarniad Safon Iechyd Corfforaethol. Ym mis Chwefror 2009, cafodd Gorsaf Drydan Magnox North-Wylfa ei hasesu'n llwyddiannus i dderbyn dyfarniad lefel Platinwm cyntaf y Safon Iechyd Corfforaethol.

### Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae aelodau o Gyswllt Amgylchedd Cymru wedi bod yn rhan o wahanol Grwpiau'r Cynllun Gofodol ac wedi gweithio hefyd ar y prosiect Rhanbarthau Amgylcheddol Rhwydweithiol. Ymysg yr aelodau sydd wedi cyfrannu amser staff i'r gwaith hwn mae Cymdeithas Eryri, Cadwch Gymru'n Daclus ac RSPB Cymru.

Mae aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru yn darparu gwybodaeth am eu gweithgareddau eu hunain, sy'n cyfrannu tuag at wireddu'r Strategaeth Amgylcheddol.

Mae cyfarfodydd rhwydweithio chwe-misol wedi cael eu cynnal mewn tri rhanbarth, y De-ddwyrain, y De-orllewin a'r Gogledd, fel rhan o brosiectau Trefi Taclus Cadwch Gymru'n Daclus. Mae'r rhain wedi cynnwys pob un o'r 22 Awdurdod Lleol a phartneriaid eraill cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, e.e. Asiantaeth Amgylchedd Cymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain. Mae dau gyfarfod wedi cael eu cynnal ym mhob rhanbarth hyd yma. Ar hyn o bryd, mae gwaith ar y gweill i ymchwilio i weithio trawsffiniol rhwng Awdurdodau Lleol.

Mae prosiect Eryri Werdd Cymdeithas Eryri, ei swyddog prosiect a'r gwobrau Eryri Werdd sydd ynghlwm wrth y cynllun, yn hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol-gynaliadwy ar ran busnesau bach yn y sector twristiaeth yng Ngogledd-orllewin Cymru. Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi cofrestru ar y Safon Iechyd Corfforaethol a hyd yma mae wedi ennill Dyfarniad Efydd. Mae Cadwch Gymru'n Daclus yn hapus i ystyried rhannu ei brofiad gyda mudiadau eraill a fyddai'n dymuno gwneud yr un fath.

## Thema 10 - Ansawdd amgylcheddol

*Canlyniadau yn y Strategaeth Amgylcheddol a gefnogir gan y thema hon: 1, 2, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 11, 12, 18, 19, 20, 21, 23, 24, 27, 28, 31, 33, 34, 36, 37*

Ceir crynodeb o'r cynnydd o dan y thema hon isod:

- Cyffiniau agos cartrefi a chymunedau pobl sy'n darparu'r profiad mwyaf amlwg a sylweddol o gyflwr yr amgylchedd yng Nghymru. Eir ati i wella ansawdd y profiad hwn drwy Gynllun Gweithredu'r Fforwm Ansawdd Amgylcheddol Lleol.

- Mae cynlluniau fel Ymfalchïo yn ein Cymunedau (a elwir erbyn hyn yn Weithredu ar Dipio Anghyfreithlon Cymru) a'r Trefi Taclus wedi datblygu ffyrdd arloesol o fynd ati i wella ansawdd ein hamgylchedd, gan harneisio cyfraniad grwpiau gwirfoddol.
- Mae dangosyddion strydlun yn gadarnach erbyn hyn yn sgil yr ychwanegiadau a ddarparwyd gan arolwg y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi parhau i gefnogi a chyllido'r rhaglen Ymfalchïo yn ein Cymunedau, i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Bydd y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol ynghylch yr Amgylchedd yn darparu cyfrwng tyngedfennol i roi i Gymru y pwerau angenrheidiol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Cafodd y Gorchymyn arfaethedig ei gyhoeddi yn y Senedd at ddibenion craffu cyn y broses ddeddfu ym mis Ebrill 2009.

Mae Llywodraeth y Cynulliad wrthi ar hyn o bryd yn datblygu cynllun monitro i sicrhau bod modd monitro Strategaeth Drafnidiaeth Cymru yn effeithiol. Mae'n ofynnol i gontractwyr Gwella Cefnffyrdd geisio safon Ragoriaeth yn y cynllun Gwobrau Ansawdd Amgylcheddol Peirianneg Sifil.

## Camau gweithredu gan bartneriaid

Mae Gweithredu ar Dipio Anghyfreithlon Cymru (a arferai gael ei alw'n Ymfalchïo yn ein Cymunedau) yn gynllun partneriaeth a noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o dan arweiniad Asiantaeth Amgylchedd Cymru. Mae'r bartneriaeth yn cynnwys amryw o gyrff allweddol sy'n gweithio gyda'i gilydd i ddal y rhai sy'n tipio'n anghyfreithlon ac i roi gwybod i'r cyhoedd am eu dyletswydd gyfreithiol i gael gwared â'u sbwriel yn gyfrifol. Mae'r cynllun wedi sefydlu fforymau tipio anghyfreithlon rhanbarthol rheolaidd i fynd i'r afael â phroblemau ac i rannu'r arferion gorau. Mae'r partneriaid yn rhannu gwybodaeth ac yn defnyddio'r technegau diweddaraf i ddod o hyd i droseddwyr. Mae'r cyhoedd hefyd yn cael eu hannog i ofyn i ble mae eu gwastraff yn mynd ac i ddefnyddio cludydd gwastraff sy'n gofrestredig gydag Asiantaeth yr Amgylchedd. Y nod yw gweithio'n well gyda'n gilydd i lanhau ein cymunedau ac i helpu i gadw Cymru'n rhydd o dipio anghyfreithlon.

Mae Cymdeithas Eryri yn trefnu diwrnodau gwaith i wirfoddolwyr i glirio sbwriel sydd wedi cronni, yn enwedig sbwriel a dipiwyd yn anghyfreithlon ar dir preifat, ym Mharc Cenedlaethol Eryri. Mae Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid hefyd yn trefnu diwrnodau gwaith i wirfoddolwyr i glirio sbwriel sydd wedi cronni ar draethau gerllaw Hostelau Ieuenctid o fewn Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi cyfrannu tuag at ddatblygu Cynllun Gweithredu drafft ar Ansawdd Amgylcheddol Lleol.

Mae arolygon o dan y System Reoli ar gyfer Archwilio'r Amgylchedd Lleol wedi cael eu cynnal gan Cadwch Gymru'n Daclus yn ardal pob un o'r 22 Awdurdod Lleol yn 2007-2008 a 2008-2009. Cafodd y wybodaeth hon ei darparu i'r Uned Ddata Llywodraeth Leol i gael ei defnyddio ar y cyd â gwybodaeth arolygu'r Awdurdodau Lleol ar gyfer y Dangosydd Perfformiad Strydlun-STS/0798/NEW1. Roedd sgôr Cymru ar y Mynegai Glendid yn 2007-2008 yn 65, ac yn 2008-2009 mae'n 66.87.

Mae'r cynllun Trefi Taclus wedi sefydlu mesurau ataliol ac wedi cynnal amnestau gwastraff mewn ardaloedd difreintiedig i atal gwastraff rhag cael ei dipio'n anghyfreithlon. Bu gwirfoddolwyr yn cyfrannu'n ymarferol tuag at gynnal digwyddiadau o'r fath. Sefydlwyd 24 o fesurau ataliol yn 2008-09, ynghyd â 152 o sgipiau cymunedol/digwyddiadau amnest gwastraff. Hefyd, mae Bwrdd Cadwch Gymru'n Daclus wedi paratoi a chytuno ar bapur polisi ar Dipio Anghyfreithlon ar Dir Preifat, at ddibenion ymgynghori. Cyflwynwyd argymhellion ynglŷn â chamau i ostwng y lefelau tipio anghyfreithlon.

Mae Cadwch Gymru'n Daclus wedi gweithredu blwyddyn 1 o'r cynllun Trefi Taclus yn llwyddiannus. Erbyn hyn cyflogir swyddogion ym mhob sir yng Nghymru. Mae'r perfformiad yn erbyn targedau Blwyddyn 1 ar gael. Bu bron i 20,000 o wirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn gweithredu amgylcheddol ymarferol ym mlwyddyn 1.

Bu Cylch yn gweithio i ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Yn 07-08, ailddefnyddiodd aelodau Cylch 10,553 tunnell fetrig, ailgylchwyd 17,810 tunnell fetrig a chompostiwyd 10,318 tunnell fetrig o wastraff o dirlenwi. Mae manylion pellach am y defnyddiau ym mhob un o'r categorïau hyn ar gael drwy ofyn; er enghraifft, mae ailddefnyddio'n cynnwys 8 categori bras o ddefnyddiau. Cefnogodd aelodau Cylch hefyd 3,343 o wirfoddolwyr gyda'u hymgyrchoedd ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio.

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru wedi creu ysgolion pysgod a chyfryngau eraill, mewn 5 man, i alluogi pysgod i fudo i fyny afonydd i'w mannau silio traddodiadol. Mae hen strwythurau fel coredau wedi llesteirio neu lwyr atal mudo i fyny afonydd am ddegawdau, gydag effaith niweidiol ar yr ecoleg afonol. Mae gwaith diweddar o'r math hwn wedi arwain at dros 1000km o afonydd wedi'u gwella yng Nghymru, a'r rheini'n helpu rhywogaethau fel yr eog, brithyll môr, llyswennod, lampreiod a gwangod.

# Rhestr byrfoddau

| | |
|---|---|
| BTCV | Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain |
| Defra | Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig |
| ALl | Awdurdodau lleol - mae'n cynnwys y 22 awdurdod unedol, y tri Awdurdod Parc Cenedlaethol a CLlLC |
| GIG | Y Gwasanaeth Iechyd Gwladol |
| RSPB | Y Gymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar |
| SDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| CLlLC | Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru |